

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2011-2026)

Archwiliad

Sesiwn Gwrandawriad 8

YNNI ADNEWYDDADWY
9.30 yb, Dydd Iau 15 Medi 2016

Datganiad ysgrifenedig pellach a thystiolaeth i'w hystyried gan yr Arolygwyr Cynllunio i gefnogi gwrthwynebiadau i'r **Cynllun Adnau 2015** gan Mairede Thomas, AAWT (ymatebwr 711) a Changen Môn, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (ymatebwr 591, 078, a Chyngor Cymuned Cwm Cadnant (ymatebwr 596, 601) o safbwynt *Adran 7.2 BYW'N GYNALIADWY*. (Gweler yr ymatebion llawn a gyflwynwyd i ymgynghoriad cyhoeddus y Cynllun Adnau).

Allwedd i'r Datganiad

Tecst du = Polisiâu'r Cynllun Adnau a materion eraill sydd angen sylw.

Tecst Coch = darnau o'r Cynllun Adnau.

Tecst Porffor = yr union newid/geiriad a geisir.

Tecst Glas = darnau o Ddogfennau Cefnogol y Cynllun Adnau.

Tecst Gwyrdd = darnau o'r Dogfennau a ddefnyddiwyd ac a ddarparwyd fel tystiolaeth.

YNNI ADNEWYDDADWY Eitem 3 ar yr Agenda.

1) Polisi ADN2 - nid yw hwn yn adlewyrchu statws Geoparc Ewropeaidd GeoMôn. Felly, dylid mewnosod y gair "geoleg" ar ôl "bioamrywiaeth" yn y paragraff olaf o eiriad y polisi.

Heb y newid yma ni fydd Polisi ADN2 yn darparu'r diogelwch priodol i amddiffyn tirlun yr ardal.

2) Polisi ADN1 – nid yw hwn yn darparu diogelwch priodol i amddiffyn tirlun yr ardal am y rhesymau a nodir yn yr ymatebion gwreiddiol i Ymgynghoriad y Cynllun Adnau ac oherwydd y dystiolaeth bellach a'r wybodaeth a ddaeth i'r amlwg neu yn wybyddus ers yr Ymgynghoriad.

a) Etholwyd Llywodraeth y DU ym Mai 2015 ar adduned eu maniffesto i gyfyngu datblygiadau gwynt ar y tir. Seilwyd hyn yn benodol ar y gydnabyddiaeth fod cymunedau yn gwerthfawrogi tirlun eu cymdogaethau a'u hardaloedd ac y dylent fedru atal datblygiadau ynni gwynt ar y tir gan gynnwys y rhai a fwriedir i dirluniau sydd heb eu dynodi. Mae Llywodraeth y DU wedi newid y gyfraith gynllunio a pholisi cynllunio i Loegr yn unol â hyn. Bu hefyd newidiadau i bolisi Cynllunio Cymru ond, hyd yma, nid yw'r rhain yn rhoi yr un hawliau i gymunedau Cymru. Credwn na ddylai cymunedau Cymru gael llai o hawliau na chymunedau Lloegr.

b) Mae bodolaeth Polisi 31 yn y cynllun statudol cyfredol i Ynys Môn h.y. Cynllun Lleol Ynys Môn 1996, yn dystiolaeth o'r gwerth mae Cyngor Sir Ynys Môn a'i drigolion wedi ei roi yn hanesyddol i dirweddau'r Ynys.

c) Dengys yr ymatebion i '**Canllawiau Cynllunio Atodol - Ynni Gwynt ar y Tir i Ynys Môn**' a gynhaliwyd yn 2012, cyn belled a bod y gymuned leol dan sylw nad yw'r angen i gadw, diogelu a gwella tirlun Ynys Môn wedi newid. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad CCA yn benodol am uchafswm maint y tyrbinau gwynt y dylid eu caniatáu ac am y pellter rhwng datblygiadau a chartrefi.

d) Ni chafodd cymuned Ynys Môn gyfle i ystyried effaith tynnu mwyafrif Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) yr Ynys yn ystod yr ymgynghoriadau CCA Ynni Gwynt ar y Tir. Derbyniwyd 'Adolygiad Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd a Môn' LUC gan yr Uned Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn Rhagfyr 2012, ar ôl i'r ymgynghoriad CCA gau. Mabwysiadwyd y CCA Ynni Gwynt ar y Tir Ynys Môn wedi iddo gael ei ystyried gan y Cyngor Llawn yn Ionawr 2013, yn atodol i'r Cynllun Lleol statudol cyfredol.

e) Ni chafodd y CCA Ynni Gwynt ar y Tir Ynys Môn ei gynnwys fel rhan o Ymgynghoriad y Cynllun Adnau i'r CDL I ar y Cyd, er y ffaith i ni gael ein harwain i gredu gan fod yr ymgynghoriad CCA i Gynllun Lleol 1996 wedi digwydd ar yr un pryd â'r gwaith o baratoi i'r Cynllun Cyn-Adneuo, o leiaf byddai yn cael ei ystyried wrth ffurfio'r polisi i'r CDL I ar y Cyd. Fel a welwyd yn ystod yr ymgynghoriadau CCA yn 2012, nid oedd yn ymddangos y byddai Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) Môn yn newid yn llwyr. Nid oedd unrhyw gyfle i arfarnu'r terfynau newydd arfaethedig a ddynodwyd i ATA Môn yn erbyn yr ymgynghoriad CCA diweddar. Mae'r ffeithiau hyn yn sicr yn rhoi y Cynllun Adnau a pholisi AND1 ar dir sigledig.

f) Ni fu unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus CDLI ar y Cyd oedd yn ystyried dynodiad newydd tirlun Geoparc Ewropeaidd GeoMôn a goblygiadau'r dynodiad hwnnw o ran Polisi ADN1. Mae UNESCO yn annog hyn:-

STATUDAU RHAGLEN RYNGWLADOL GWYDDORAU DAEAR A GEOBARCIAU

Rhan B: Geobarciau Byd-eang UNESCO

Erthygl 1: Geobarciau Byd-eang UNESCO

UNESCO Global Geoparks, within the IGGP, are the mechanism of international cooperation by which areas of geological heritage of international value, through a bottom-up approach to conserving that heritage, support each other to engage with local communities to promote awareness of that heritage and adopt a sustainable approach to the development of the area. Through the IGGP, these areas can apply to UNESCO, for designation as a "UNESCO Global Geopark", drawing upon the broader mandate of the Organization

Erthygl 2.1 Geobarciau Byd-eang UNESCO oddi fewn i Raglen Ryngwladol Gwyddorau Daear a Geobarciau

UNESCO Global Geoparks, within UNESCO's International Geoscience and Geoparks Programme (IGGP), encourage international cooperation between areas with geological heritage of international value, through a bottom-up approach to conservation, local community support, promotion of heritage and sustainable development of the area. Through the IGGP, these areas apply to UNESCO as the only United Nations organization with a remit in the Earth Sciences to designate as a "UNESCO Global Geopark", which draws upon the broader mandate of the Organization.

Erthygl 3. (v) UNESCO Global Geoparks should actively involve local communities and indigenous peoples as key stakeholders in the Geopark. In partnership with local communities, a co-management plan needs to be drafted and implemented that provides for the social and economic needs of local populations, protects the landscape in which they live and conserves their cultural identity. It is recommended that all relevant local and regional actors and authorities be represented in the management of a UNESCO Global Geopark. Local and indigenous knowledge, practice and management systems should be included, alongside science, in the planning and management of the area.

http://www.globalgeopark.org/UploadFiles/2012_9_6/IGGP_EN_Statutes_and_Guidelines.pdf

Mae'r ffaith fod maint a dyfnder y sylfeini concriid sydd eu hangen i dyrbinau gwynt a ddsberthir fel Micro, Bychan, Canolig, Mawr a Mawr lawn yn y golofn "Teipoleg Melin Wynt' yn nhabl 13, ar dudalen 85, yn broblematic. Bydd datblygiadau o'r maint yma yn golygu bod adnodd daearegol gwerthfawr yn cael ei ddinistrio yn ddiangen a bydd y cyfleoedd diwylliannol, addysgol ac eco-dwristiaeth i ddehongli a phrofi'r Geobarc Byd-eang yn cael eu colli.

g) Mae ffyrdd llai niweidiol o wireddu potensial ardal y cynllun ar gyfer ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel.

h) Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno **Deddf Amgylchedd (Cymru)** sy'n rhoi sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac nid yw ffermydd gwynt yn cwrdd â'r meini prawf hynny ar Ynys Môn.

i) Mae tirweddau a ddynodwyd yn Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) yn bwysig fel rhan o'r tirlun lleol ac maent yn cefnogi'r economi twristiaeth.

Ar Ynys Môn mae'r ATA y tu fewn i'r AHNE. Mae'r tirlun deniadol yma yn denu ymwelwyr o'r arfordir ac i fewndir Ynys Môn. Yn y ffordd yma gellid defnyddio'r ATA i ddarparu ar gyfer rhai mathau o weithgareddau a datblygiadau twristiaidd a drwy wneud hynny mae modd tynnu'r pwysau oddi ar dirwedd mwy sensitif yr AHNE. I ymgymryd â'r dasg mae'r ATA angen polisiâu fydd yn sicrhau eu bod yn parhau yn ddeniadol. Mae hi felly yn briodol trin yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn yr un modd â thirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol yn y CDLL ar y Cyd o safbwynt Polisi ADN1.

j) Yng ngoleuni statws Geobarc Byd-eang GeoMôn a'r cais cynllunio diweddar i fferm wynt Rhyd y Groes, mae hi yn hanfodol fod darpariaeth yn y CDLI ar y Cyd i sicrhau bod tyrbinau gwynt darfodedig yn cael eu tynnu o'r tirlun. Yn achos Rhyd y Groes, rhoddwyd caniatâd i godi 11 tyrbinau gwynt mawr newydd ger y fferm wynt bresennol. Roedd y Cyngor Sir yn ystyried mai dyma oedd yr unig ffordd i sicrhau tynnu'r 24 tyrbinau presennol llai sy'n dod i ddiwedd eu hoes neu sydd eisoes wedi darfod. Cafodd y cais newydd ei hyrwyddo gan y datblygwyr fel "ail-bweru" ond mewn gwirionedd byddant yn cael eu hadeiladu ar dir glas gan eu bod angen sylfeini concrid llawer dyfnach. Bydd y sylfeini presennol yn aros yn y ddaear gydag ond gwaith adfer arwynebol yn cael ei wneud i ddarparu peth pridd wyneb. Nid yw hyn yn enghraifft o ddatblygiad cynaliadwy. Mae'r posibilrwydd o gael strwythurau tyrbinau mawr a pheryglus yn dirywio wedi iddynt gael eu gadael yn y tirlun pan fo perchnogion tir neu ddatblygwyr ddim yn eu symud eisoes yn broblem i Ynys Môn.

Polisi ADN1 vii) - mae angen iddo gynnwys bond gaiff ei flaendalu i'r ACLI i dalu am gostau dymchwel ac adfer. Efallai na fydd amod cynllunio ar ben ei hun yn ddigon grymus.

k) Mae technoleg ynni gwynt yn ffurf gwasagredig iawn o ddatblygu - ble mae'r tyrbinau a'r polion cysylltiedig a'r peilonau sydd eu hangen i drosglwyddo a dosbarthu trydan i gyd yn elfennau ymwithiol yn y tirlun. Mae angen nifer fawr o strwythurau a llawer o dir i gynhyrchu ychydig iawn o drydan. Fe wnaeth y diweddar Brif Wyddonydd gyda DECC, yr Athro David MacKay, nodi mewn amryfal bapurau a darlithoedd (ar gael ar Youtube) y ffigyrau tir cymharol a ddefnyddir, ac yn ei waith arloesol '*Sustainable Energy Without the Hot Air*'.

Ffynhonnell:-

<http://www.withouthotair.com/cft.pdf> a

<https://www.withouthotair.com/Electronic.html>

Er bod technoleg tyrbinau gwynt wedi camu ymlaen a bod tyrbinau unigol yn gallu cynhyrchu mwy o bŵer, mae hyn yn bennaf oherwydd eu bod yn strwythurau llawer mwy. Mae'r strwythurau newydd enfawr, diwydiannol eu natur hyd yn oed yn fwy anghydwedol yn nhirlun cymharol wastad Môn. Maent angen mwy o dir fesul tyrbîn i fedru ymdopi gyda'r tyrfedd a'i olion a achosir gan lafnau mwy.

Mae tir cynhyrchiol hefyd yn cael ei golli i is-orsafoedd, ffyrdd a gorsafoedd pŵer dibynnol wrth gefn.

Polisi ADN1 – felly nid yw'r polisi yma'n gynaliadwy. Mae'r meini prawf yn rhy barod i ganiatáu datblygiadau ynni gwynt. Mae arwynebedd y tir y gellir ei golli a dinistrio'r tirlun yn ormodol.

l) Mae tirweddau o ansawdd da o gymorth ar gyfer iechyd da a llesiant. Fe wyddom fod problem gyda sŵn AM yn fferm wynt Rhyd y Groes, fel y cyfeirir at y safle yn ETSU-R-97 (er bod y data daearyddol yn anghywir – mae yng ngogledd Ynys Môn). Yn atodol, gwelwch chwe tudalen o'r ETSU-R-97 gwreiddiol, sy'n cyfeirio at Rhyd-y-Groes fel ffynhonnell cwynion. Gellir lawrlwytho'r ETSU-R-97 cyfan o'r ddolen isod:

[http://www.hayesmckenzie.co.uk/downloads/ETSU%20Full%20copy%20\(Searchable\).pdf](http://www.hayesmckenzie.co.uk/downloads/ETSU%20Full%20copy%20(Searchable).pdf)

Ar hyn o bryd mae problem gyda sŵn o dyrbinau gwynt Ysgellog sydd gerllaw.

m) Mae Llywodraeth y DU yn edrych ar fater sŵn AM o tyrbinau gwynt gan nad oes unrhyw fodd yn y canllawiau presennol i ddelio gyda gormodoedd o sŵn AM. Fe wnaeth DECC gymryd tystiolaeth gan Weithgor Sŵn Annibynnol:-

https://www.heatonharris.com/sites/www.heatonharris.com/files/inwg_am_studyt_or_30oct2014_final.pdf

Wrth ateb y cwestiynau a godwyd gan Chris Heaton-Harris AS yn ystod dadl ar y Bil Ynni ar y 14 o Fawrth 2016, cadarnhaodd y Gweinidog Gwladol, Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Andrea Leadsom:-

“I thank my hon. Friend the Member for Daventry, my hon. Friends the Members for Peterborough (Mr Jackson) and for South Cambridgeshire (Heidi Allen), and my right hon. Friend the Member for Haltemprice and Howden (Mr Davis) for raising with me the important issues around visual, amenity and noise impacts from onshore wind farms and the impact that they can have at local level. I can confirm that our manifesto commitment specifically called for a halt to the spread of onshore wind farms and a change in the law so that local people have the final say on wind farm applications. We are making sure that people’s concerns are addressed. Specifically, the Government are considering measures related to noise and amplitude modulation. We touched on this matter in Committee. As I said then, we are determined to address this and find a solution to the problem. This is possibly taking longer than my hon. Friends would like, but we are taking independent advice and will consider how best to act in the light of that advice, which I expect to receive shortly. At this stage, I cannot comment further, but I hope that my hon. Friend the Member for Daventry will continue to be patient with me in the knowledge that we are looking at this very closely.”

Ffynhonnell:-

<http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201516/cmhansrd/cm160314/debtext/160314-0001.htm#16031410000003>

n) Byddai Cyngor Sir Ynys Môn yn methu yn ei ddyletswydd gofal a gwarchod y cyhoedd pe na byddai yn ystyried y dystiolaeth am allyriadau andwyol sŵn AM o dyrbinau gwynt a’r ffaith fod y mater yma ar hyn o bryd yn cael ei drin gan Lywodraeth y DU. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi mwy o ddyletswyddau ar awdurdod cynllunio lleol o ran gwarchod y cyhoedd a hybu byw yn iach ac amgylchedd iach. Byddai’r Cyngor yn rhoi ei hun yn agored i gamau cyfreithiol os yw’n methu ag ystyried yn briodol unrhyw newid posib a gyfyd o sŵn AM.

Dylai Polisi ADN1 fod â darpariaeth i ddatblygiadau tyrbinau gwynt newydd fod yn amodol i unrhyw ddeddfwriaeth neu ganllawiau newydd sydd ar y ffordd ynglŷn â allyriadau sŵn ac i atebolrwydd cyhoeddus gael ei roi ar ddatblygwyr, perchnogion tir a gweithredwyr.

o) O roi ystyriaeth i'r gwrthwynebiadau a godwyd i'r Cynllun Adnau ac i'r pwyntiau uchod, ni ddylai maint y tyrbinau gwynt newydd a ganiateir ar Ynys Môn fod yn ddim mwy na 15 metr.

YNNI ADNEWYDDADWY Eitem 7 ar yr Agenda.

3) Cafodd y **Papur Cefndir Astudiaeth Ynni Adnewyddadwy; a'r Atodiadau A,B,C,CH,D; a'r bwriad i gyflwyno rhan newydd i bolisi ADN2** ond eu rhoi allan yn gyhoeddus drwy eu cynnwys ym mhorth Archwiliad y CDLI ar y Cyd yn ystod y dyddiau diwethaf.

Mae'n hanfodol bod ymgynghoriad cyhoeddus am yr ychwanegiadau a'r newidiadau hyn.

a) Mae yna lawer o faterion i'w hystyried o ran ffermydd solar, yn cynnwys y gofyniad am lawer o dir ac o'r herwydd y newid i gymeriad y tirlun.

Yn ddiweddar cafwyd enghraifft gymharol rhwng pŵer niwclear a ffermydd solar gan Dr Ben Britton, Darlithydd/Cymrawd Ymchwil RAEng, Cyfarwyddwr MSc mewn Peirianeg Niwclear Uwch yn Adran Defnyddiau, Coleg Imperial Llundain a dywedodd:-

“To contextualise the scale of the Hinkley project – it is approximately equivalent to a solar farm that takes up an area the size of the Isle of Wight.”

Ffynhonnell:-

http://www3.imperial.ac.uk/newsandeventspggrp/imperialcollege/newssummary/news_2-8-2016-14-28-7

I roi hyn mewn cyd-destun lleol mae cais am fferm solar 49.99MW yn Rhyd y Groes fydd yn cymryd ardal o dir sy'n fras yn cyfateb i faint tref gyfagos Cemaes.

Mae ffyrdd eraill o ddefnyddio pŵer solar ac mae ynni adnewyddadwy eraill sydd ag ôl troed llawer llai.

b) Gallwn edrych hefyd ar fathau eraill o ynni carbon isel fel adweithyddion modiwlwr bach (SMRs) halen tawdd ‘cerdded i ffwrdd yn ddiogel’. Mae hwn yn dechnoleg sy’n datblygu’n gyflym:-

<http://www.zmescience.com/ecology/what-is-molten-salt-reactor-424343/>

Disgwylir y bydd SMRs halen tawdd ar gael yn ystod y degawd nesaf h.y. yn ystod amser y cynllun. Maent yn cael eu datblygu fel cynnyrch masnachol a dywed cwmni Moltex or DU y bydd yn rhatach na ffynonellau pŵer eraill:-

<http://analysis.nuclearenergyinsider.com/moltex-energy-sees-uk-canada-smr-licensing-springboard-asia#.V3QuUsYEaA8.twitter>

Mae’r dechnoleg yma wedi bod yn ganolbwynt i adroddiad a gynhyrchwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Materion Cymreig :-

<http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmwelaf/129/12902.htm>

Rhoddodd Cyngorau Gwynedd a Môn dystiolaeth i’r Pwyllgor ac maent yn gefnogol iawn i dechnoleg SMR i gael ei ddatblygu yma. Mantais SMR yw y gellid adeiladu’r modiwlau mewn gwahanol feintiau i gynhyrchu rhwng 30 a 300MWe. Mae modiwl 50MWe tua maint cynhwysydd mawr. Mae gan fferm wynt newydd Rhyd y Groes y gallu i greu tua 9.9MW ac mae hyn wedi ei ledaenu dros gannoedd o erwau. Mae adweithydd halen tawdd yn dechnoleg ddiogel, yn creu cyflenwad pŵer dibynadwy a tua 85% yn llai o wastraff, sy’n llai gwenwynig ac felly mae angen ei storio am gymharol ychydig o amser. Bydd rhai dyluniadau yn gostwng y pentyrrau o wastraff presennol gan eu bod yn gallu ail-gylchu’r gwastraff fel tanwydd, a chynhyrchu ffynhonnell mwy cynaliadwy o bŵer niwclear.

Oherwydd y camau breision wnaed tuag at dechnoleg SMR nid oes fawr o bwynt mewn anharddu ardal y CDLI ar y Cyd gyda thechnolegau nad ydynt yn gynaliadwy ac sy’n niweidiol i’r tirlun. Mae’r opsiwn newydd yma i gynhyrchu ynni carbon isel yn un y dylid ei ystyried yn awr fel rhan o’r broses CDLI ar y Cyd.

Mewn gwirionedd, yng ngoleuni’r dechnoleg newydd, technoleg ddod yw datblygiadau tyrbinau gwynt ac ni fydd ganddynt unrhyw bwrpas defnyddiol o hyn ymlaen, ac eithrio efallai ar raddfa ddomestig. Felly, dylid newid Polisi ADN1 yn unol â hynny.